

Rhaglen Diwygio Trwyddedu – Galwad am Dystiolaeth

1. Galwad am Dystiolaeth: Diwygio'r Fframwaith Trwyddedu

Diben

Mae'r Llywodraeth yn gwahodd barn a thystiolaeth i lywio datblygiad system drwyddedu fodern, gymesur a galluogol. Mae'r alwad hon am dystiolaeth yn adeiladu ar argymhellion y Tasglu Trwyddedu ac ymateb y Llywodraeth[1] ac yn cefnogi ymrwymiad y Llywodraeth i leihau beichiau rheoleiddio 25% erbyn diwedd y Senedd hon[2]. Mae'r Alwad hon am Dystiolaeth yn canolbwyntio ar y 'fasnach' mewn perthynas â gwerthu alcohol, er enghraifft tafarndai, bwytai a chlybiau nos, ac ar bob adloniant sydd wedi'i drwyddedu o dan Ddeddf Trwyddedu 2003.

Pwy Ddylai Ymateb

- Busnesau trwyddedig a chyrff masnach
- Awdurdodau lleol a swyddogion trwyddedu
- Yr heddlu ac asiantaethau gorfodi eraill
- Sefydliadau diwylliannol a chymunedol
- Grwpiau eiriolaeth preswylwyr
- Gweithwyr proffesiynol cyfreithiol, cynllunio a rheoleiddio
- Sefydliadau iechyd y cyhoedd
- Cyhoeddwyr newyddion lleol
- Aelodau o'r cyhoedd

Cyflwyniad

Nod diwygiadau trwyddedu'r Llywodraeth yw creu system fodern, gymesur a galluogol sy'n cefnogi twf economaidd, yn adfywio strydoedd mawr ac yn meithrin cymunedau bywiog.

Yn ganolog i'r weledigaeth hon mae lleihau beichiau gweinyddol ar fusnesau 25%, wrth gynnal mesurau diogelwch cryf ar gyfer diogelwch y cyhoedd, atal troseddu a iechyd y cyhoedd.

Mae'r system drwyddedu bresennol, o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 ac wedi'i chefnogi gan ganllawiau statudol, yn rheoleiddio gweithgareddau megis gwerthu alcohol, darparu adloniant a lluniaeth gyda'r hwyr. Mae awdurdodau lleol yn cyhoeddi trwyddedau ac yn gorfodi amodau yn seiliedig ar bedwar amcan trwyddedu: atal troseddu ac anhrefn; diogelwch y cyhoedd; atal niwsans cyhoeddus; ac amddiffyn plant rhag niwed. Caiff ceisiadau am drwyddedau, ac amrywiadau iddynt, eu hasesu yn erbyn yr amcanion hyn. Nod y system drwyddedu yw cefnogi economïau lleol bywiog wrth sicrhau bod cymunedau'n ddiogel ac wedi'u hamddiffyn, gyda busnesau'n elwa o fframwaith rheoleiddio teg a chymesur. Fel y dywedodd y Tasglu, fodd bynnag, dros y blynyddoedd mae cydbwysedd y system wedi newid, gyda mwy o bwyslais yn cael ei roi ar ddiogelwch y cyhoedd ac atal troseddu, o dan yr amcanion trwyddedu statudol, a llai o ffocws ar wydnwch a thwf busnesau.

Mae diwygio'r gyfundrefn yn ceisio symleiddio prosesau hen ffasiwn, gwella cysondeb ar draws awdurdodau lleol ac integreiddio trwyddedu'n well â chyfundrefnau cysylltiedig megis cynllunio, cydlyniant cymunedol, twristiaeth a pholisi diwylliannol. Dylai hyrwyddo tegwch, tryloywder ac ymatebolrwydd i anghenion lleol, wrth annog arloesedd a buddsoddiad mewn lletygarwch, hamdden, diwylliant ac economïau'r nos. Trwy fecanweithiau megis Fframwaith Polisi Trwyddedu Cenedlaethol, amnest amodau trwyddedu a pharhau â'r newid tuag at systemau ar-lein, mae'r Llywodraeth yn anelu at wneud systemau'n fwy effeithiol ac effeithlon, gan rymuso awdurdodau lleol a busnesau fel ei gilydd. Bydd diwygio'n cael ei lunio drwy ymgysylltu eang â rhanddeiliaid, gan gynnwys yr alwad hon am dystiolaeth.

Bydd mentrau strategol megis parthau, hyrwyddo twristiaeth a thwf, a hyfforddiant gwell i swyddogion trwyddedu yn helpu i sicrhau darpariaeth effeithiol.

Fel rhan o'n hymrwymiad i ailgydbwyso'r system drwyddedu, wrth i ddiwygiadau gael eu rhoi ar waith, byddwn yn monitro eu heffaith ar yr amcanion trwyddedu presennol, ar adnoddau awdurdodau lleol a'r heddlu, ar iechyd y cyhoedd, ac ar wydnwch a thwf busnesau.

Mae'r alwad hon am dystiolaeth yn canolbwyntio ar y cynigion hynny lle nododd y Tasglu fod potensial ar gyfer y budd mwyaf. Bydd cynigion eraill, gan gynnwys rhai o argymhellion y Tasglu, yn cael eu hystyried ymhellach maes o law, a bydd ymgynghori arnynt yn ôl yr angen.

[1] [Adroddiad y Tasglu Trwyddedu ac ymateb y Llywodraeth - GOV.UK](#)

[2] [Ymagwedd newydd i sicrhau bod rheoleiddwyr a rheoleiddio yn cefnogi twf \(HTML\) - GOV.UK](#)

2.

1. Amdanoch chi

Ydych chi'n ymateb fel:

- ☐ Fel unigolyn
- ☐ Fel sefydliad sector cyhoeddus
- ☐ Fel sefydliad sector preifat
- ☐ Fel sefydliad sector gwirfoddol

3.

2. Beth yw enw'r sefydliad/busnes rydych chi'n ymateb ar ei ran?

3. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'r sefydliad/busnes rydych chi'n ymateb ar ei ran orau?

- ☐ Awdurdod lleol/cyngor
- ☐ Heddlu neu gorff gorfodi (e.e. awdurdod safonau masnach)
- ☐ Sefydliad iechyd cyhoeddus
- ☐ Corff neu gymdeithas fasnach
- ☐ Sefydliad cymunedol neu elusennol
- ☐ Grŵp preswylwyr
- ☐ Busnes lletygarwch (e.e. tafarn, bwyty, gwesty)
- ☐ Busnes hamdden (e.e. clwb nos, theatr, sinema, lleoliad chwaraeon, lleoliad cerddoriaeth)
- ☐ Allfa fanwerthu (e.e. archfarchnad neu siop drwyddedig)
- ☐ Sefydliad newyddion (e.e. papur newydd lleol)
- ☐ Arall (rhowch fanylion)
- ☐ Ddim am ddweud

4. Faint o weithwyr sydd gennych chi neu'r sefydliad rydych chi'n ymateb ar ei ran?

- ☐ Busnes/sefydliad micro – 1-9 o weithwyr
- ☐ Busnes/sefydliad bach – 10-49 o weithwyr
- ☐ Busnes/sefydliad canolig – 50-249 o weithwyr
- ☐ Busnes/sefydliad mawr – 250+ o weithwyr
- ☐ Amherthnasol – 0 gweithwyr
- ☐ Anhysbys
- ☐ Ddim am ddweud

4.

5. A ydych chi neu'r sefydliad/busnes rydych chi'n gweithio iddo yn dal trwydded alcohol a roddwyd ar gyfer safle sydd wedi'i leoli naill ai yng Nghymru neu Loegr o dan Ddeddf Trwyddedu 2003?

- ☐ Ydw/ydy
- ☐ Nac ydw/ydy
- ☐ Ddim yn gwybod
- ☐ Ddim am ddweud

6. Ydych chi wedi ymwneud â'r broses drwyddedu alcohol o'r blaen?

- ☐ Ydw, fel ymgeisydd
- ☐ Ydw, fel ymgynghorai/gwrthwynebydd
- ☐ Ydw, fel awdurdod cyfrifol
- ☐ Nac ydw
- ☐ Ddim yn gwybod
- ☐ Ddim am ddweud

5. Fframwaith Polisi Trwyddedu Cenedlaethol

Ein nod yw creu system drwyddedu gytbwys sy'n cefnogi polisiâu cenedlaethol a rhanbarthol ehangach.

Argymhellodd y Tasglu Trwyddedu y dylai'r llywodraeth "sefydlu Fframwaith Polisi Trwyddedu Cenedlaethol i gysoni arferion trwyddedu ar draws awdurdodau, gan gadw disgresiwn lleol. Byddai'n alinio trwyddedu â nodau ehangach y llywodraeth – twf economaidd, datblygiad diwylliannol a diogelwch y cyhoedd – heb fod angen deddfwriaeth sylfaenol. Wedi'i gyflwyno drwy gynhyrchu trwyddedu, byddai'n lleihau beichiau rheoleiddio, yn gwella cysondeb, ac yn cefnogi gwneud penderfyniadau tecach."

Beth yw Fframwaith Polisi Trwyddedu Cenedlaethol?

Mae Deddf Trwyddedu 2003 yn sefydlu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer trwyddedu alcohol, adloniant a lluniaeth gyda'r hwyr yng Nghymru a Lloegr. Mae'r canllawiau statudol yn cynnig cyngor manwl i awdurdodau trwyddedu ar ddechongli a chymhwyso'r Ddeddf.

Byddai'r Fframwaith Polisi Trwyddedu Cenedlaethol (NLPF) arfaethedig yn helpu i gyflwyno system drwyddedu gytbwys sy'n adlewyrchu bwriad gwreiddiol y fframwaith trwyddedu, er enghraifft:

- rhoi mwy o ryddid a hyblygrwydd i fusnesau i fodloni disgwyliadau cwsmeriaid
- mwy o ddewis i gwsmeriaid, gan gynnwys twristiaid, ynghylch ble, pryd a sut maen nhw'n treulio eu hamser hamdden
- annog mwy o safleoedd sy'n gyfeillgar i deuluoedd lle gall plant iau fynd gyda'u teuluoedd
- datblygiad pellach o fewn cymunedau o'n diwylliant cyfoethog o gerddoriaeth fyw, dawnsio a theatr
- adfywio ardaloedd sydd angen y cyfleoedd buddsoddi a chyflogaeth cynyddol y gall economi'r nos ffyniannus a diogel eu cynnig
- yr amddiffyniad angenrheidiol i breswylwyr lleol, y gall eu bywydau gael eu difetha gan aflonyddwch ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â rhai pobl yn ymweld â safleoedd trwyddedig

Yn ogystal, bydd yr NLPF yn helpu i gysoni arferion trwyddedu ar draws awdurdodau lleol, gan gadw disgresiwn lleol. Byddai'n eistedd ochr yn ochr â Deddf Drwyddedu 2003 a'r canllawiau statudol, gan ddarparu cyfeiriad cenedlaethol i gefnogi cysondeb, tryloywder, ac aliniad â nodau ehangach y llywodraeth, megis twf economaidd, gwella cynrychiolaeth ddiwylliannol, gwydnwch strydoedd mawr, a gwella iechyd a lles y cyhoedd.

Mae'r llywodraeth yn rhagweld mai prif amcan unrhyw NLPF fyddai sefydlu system drwyddedu gyson, dryloyw, ac wedi'i halinio'n strategol sy'n grymuso awdurdodau lleol wrth gefnogi nodau cenedlaethol ar gyfer twf economaidd, datblygiad diwylliannol, diogelwch y cyhoedd, a iechyd a lles cymunedol.

7. A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r amcan cyffredinol o system drwyddedu gyson a thryloyw sy'n grymuso awdurdodau lleol wrth hyrwyddo twf economaidd, datblygiad diwylliannol, diogelwch y cyhoedd a lles cymunedol?

- ☐ Cytuno
- ☐ Anghytuno
- ☐ Ddim yn gwybod
- ☐ Ddim am ddweud

Esboniwch eich ateb:

8. A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai hyrwyddo twf economaidd fod yn amcan trwyddedu statudol ochr yn ochr â'r amcanion diogelwch cyhoeddus presennol?

Amcan statudol yw un sydd wedi'i ddiffinio yn y gyfraith ac y mae'n ofynnol i awdurdodau trwyddedu ei ystyried.

- ☐ Cytuno
- ☐ Anghytuno
- ☐ Ddim yn gwybod
- ☐ Ddim am ddweud

9. A ydych chi'n credu y dylai'r gyfundrefn drwyddedu drin safleoedd mewnfasnach ac allfasnach yn wahanol mewn unrhyw ffordd er mwyn caniatáu mynd i'r afael â'r gwahanol heriau a chyfleoedd?

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Ddim yn gwybod
- ☐ Ddim am ddweud

Esboniwch eich ateb:

10. Pa themâu blaenoriaeth y dylid eu cynnwys mewn Fframwaith Polisi Trwyddedu Cenedlaethol?

- ☐ Diogelwch y Cyhoedd ac Atal Troseddu
- ☐ Twf Economaidd a Lleihau'r Baich ar Fusnesau
- ☐ Diwylliant a Chydlyniant Cymunedol
- ☐ Iechyd a Llesiant Cymunedol
- ☐ Cefnogi Twf, Strydoedd Mawr ac Economiâu'r Nos Eraill
- ☐ Eraill

Rhestrwch unrhyw themâu eraill i'w cynnwys:

11. Sut allai'r llywodraeth asesu a yw canllawiau cenedlaethol yn gweithio'n effeithiol?

Awgrymwch ffyrdd y gallem fesur a yw canllawiau cenedlaethol yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol.

- ☐ Twf ym maint y sector a'r nifer o fusnesau
- ☐ Cyfraddau is o droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol
- ☐ Cyfraddau is o niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol
- ☐ Llai o bobl yn apelio yn erbyn penderfyniadau
- ☐ Arall (nodwch isod)

Sylw:

6. Amnest Amodau Trwyddedu

Nod y Llywodraeth yw moderneiddio a symleiddio trwyddedau ar gyfer safleoedd mewnfasnach.

Beth yw amnest ar amodau trwyddedu?

Mae'r rhan fwyaf o drwyddedau mangre yn cael eu rhoi am gyfnod amhenodol ac yn cynnwys amodau a ystyriwyd yn rhesymol ac yn gymesur ar yr adeg y cawsant eu hychwanegu at y drwydded. Mae proses sefydledig i ddeiliaid trwyddedau ofyn am welliannau neu ddileu'r amodau hyn.

Mae rhai o'r amodau hyn yn cael eu trin fel amrywiadau bach, newidiadau bach nad ydynt yn effeithio'n sylweddol ar amcanion trwyddedu, ac fel arfer maent yn destun adolygiad ysgafn. Mae rhai yn cael eu trin fel amrywiadau mawr, fodd bynnag, sef newidiadau mwy arwyddocaol e.e. ymestyn amseroedd masnachu alcohol, sy'n gofyn am adolygiad mwy cynhwysfawr, sy'n cyfateb i gais am drwydded newydd. Mae rhywfaint o anghysondeb posib ar draws ardaloedd trwyddedu ynghylch beth sy'n cyfrif fel amrywiadau mawr a bach, felly mae perchnogion busnesau yn amharod i ofyn am unrhyw newidiadau i'w trwyddedau mangre, gan gynnwys amodau trwydded diangen, rhag ofn y bydd yn sbarduno adolygiad trwydded llawn.

Byddai amnest yn cydnabod efallai nad yw llawer o amodau trwyddedu – yn enwedig y rhai a etifeddwyd o gyfundrefnau cyn 2005 – yn berthnasol nac yn gymesur mwyach, felly dylid trin eu dileu fel amrywiadau bach. Yn bwysig, byddai amnest yn gweithredu o fewn pwerau deddfwriaethol presennol ac ni fyddai angen deddfau newydd. Ni fyddai'r amnest yn caniatáu dileu amodau'n llwyr heb adolygiad. Byddai'n canolbwyntio ar safleoedd mewnfasnach (e.e. bwytai, barrau, clybiau nos), yn hytrach na safleoedd allfasnach (e.e. siop ddiodydd drwyddedig).

Mae'r Llywodraeth yn rhagweld proses lle byddai deiliaid trwydded yn cael eu hannog i baratoi eu newidiadau arfaethedig i'w trafod gyda'u swyddog trwyddedu yr heddlu yn yr ymweliad nesaf â'r safle, neu'n gynharach drwy gytundeb. Byddent yn gallu ystyried cyngor yr heddlu ar briodoldeb y cynigion a pha rai ohonynt a allai fod yn gymwys fel rhai bach, cyn cyflwyno eu cais i'r awdurdod trwyddedu a hysbysebu'r newidiadau arfaethedig yn ôl yr angen. Rhaid gwneud penderfyniadau o fewn 15 diwrnod gwaith, a rhaid i'r awdurdod gymeradwyo'r cais oni bai ei fod yn credu y gallai'r newidiadau effeithio'n negyddol ar hyrwyddo amcanion trwyddedu.

Beth yw amrywiadau bach?

Nid yw Deddf Trwyddedu 2003 yn diffinio amrywiadau bach, fodd bynnag ni ystyrir y newidiadau canlynol yn rhai bach:

- Ymestyn hyd y drwydded
- Newidiadau sylweddol ar y safle
- Ychwanegu cyflenwi alcohol
- Caniatáu gwerthu alcohol rhwng 11pm a 7am
- Cynyddu'r oriau y caniateir gwerthu neu gyflenwi alcohol

12. A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai fod amnest ar gyfer amodau trwyddedu fel y disgrifir uchod?

- ☐ Cytuno
- ☐ Anghytuno
- ☐ Ddim yn gwybod
- ☐ Ddim am ddweud

13. Beth fydddech chi'n ei weld fel prif fanteision amnest? [Ticiwch bob un sy'n berthnasol]

Amodau bach yw newidiadau bach nad ydynt yn effeithio'n sylweddol ar amcanion trwyddedu.

- ☐ Dileu amodau bach sy'n dyddio cyn 2005
- ☐ Dileu amodau bach ers 2005
- ☐ Dileu amodau nad ydynt yn rhai bach
- ☐ Lleihau costau i fusnesau
- ☐ Lleihau costau i ddefnyddwyr
- ☐ Lleihau diffyg cydymffurfio ag amodau
- ☐ Annog gwell perthnasoedd rhwng safleoedd ac awdurdodau
- ☐ Arall
- ☐ Dim

Os ateboch 'Arall', manylwch:

14. Pa heriau ydych chi'n eu cysylltu ag amnest? [Ticiwch bob un sy'n berthnasol]

- ☐ Costau i fusnesau wrth wneud ceisiadau
- ☐ Costau i lywodraeth leol a phlisma wrth adolygu a chynghori ar geisiadau

- ☐ Risgiau cynyddol i ddiogelwch y cyhoedd
- ☐ Risg gynyddol o sŵn neu niwsans cyhoeddus
- ☐ Risg gynyddol o drosedd ac anhrefn
- ☐ Heriau i amddiffyn plant rhag niwed
- ☐ Arall
- ☐ Dim

Os ateboch 'Arall', manylwch:

15. Bydd yn bwysig deall beth sy'n cyfrif fel amrywiad bach wrth benderfynu pa fathau o newidiadau mewn amodau trwydded y gallai amnest fynd i'r afael â nhw. A allwch chi roi eich barn? Beth fyddai'n nodweddiadol o amrywiad bach yn eich barn chi? Gallwch roi enghreifftiau.

7. Gofynion Hysbysiad Statudol

Ein nod yw edrych ar ddod â'r gofyniad am hysbysiadau statudol print ar gyfer trwyddedau alcohol i ben.

Mae'r Ddeddf Drwyddedu yn ei gwneud yn ofynnol bod rhaid cyhoeddi ceisiadau newydd am drwyddedau safle neu newidiadau mawr i drwyddedau presennol mewn papur newydd lleol ac ar y safle. Mae'r hysbysiadau statudol hyn hefyd yn berthnasol i benderfyniadau lleol eraill, megis rhai ceisiadau cynllunio a chau ffyrdd. Mae'r gofyniad i osod hysbysiadau statudol mewn papurau newydd print lleol yn adlewyrchu'r angen i gadw pobl leol yn wybodus ynghylch penderfyniadau a allai effeithio arnynt, ond mae hefyd yn darparu ffynhonnell incwm i gwmnïau cyfryngau. Fodd bynnag, mae rhai ymgeiswyr am drwyddedau yn nodi costau sylweddol ac amrywiol ar gyfer hysbysebu hysbysiadau. Mae'r gofyniad hwn yn berthnasol i safleoedd mewnfasnach ac allfasnach (e.e. bwytai a barrau, yn ogystal â manwerthwyr sy'n gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle).

Mae darllenwyr papurau newydd print lleol yn Lloegr wedi gostwng yn gyson, heb unrhyw bapurau dyddiol a dim ond pum papur wythnosol yn cylchredeg dros 20,000 o gopïau yn 2024. Gostyngodd canran y bobl sy'n cyrchu newyddion lleol drwy brint o 23% i 9% dros saith mlynedd. I'r gwrthwyneb, mae gwefannau'r cyhoeddwy newyddion lleol hyn yn cyrraedd oddeutu 37 miliwn o bobl yn y DU bob mis. Mae hysbysiadau alcohol yn cael eu hatgynhyrchu'n gyffredin ar y safleoedd hyn yn ogystal â mewn print. Mae'r diwydiant wedi lansio Porth Hysbysiadau Cyhoeddus, sy'n darparu adnodd canolog a rhyngweithiol ar gyfer pob math o hysbysiad statudol, gyda chynlluniau ar y gweill i ymgorffori swyddogaeth ymgynghori cyhoeddus i helpu cyrff cyhoeddus ac endidau masnachol i ymgysylltu â'r cyhoedd yn fwy effeithiol.

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod newyddiaduraeth leol yn hanfodol wrth gefnogi atebolrwydd a darparu gwybodaeth leol ddibynadwy. Gyda'r ymdrechion datganoli parhaus a phryderon ynghylch twyllwytadaeth ar-lein, mae'r Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi ymrwymo i gefnogi newyddiaduraeth leol drwy Strategaeth Cyfryngau Lleol. Ymhlith materion eraill, bydd y Strategaeth hon yn cynnwys adolygiad ehangach o bob math o hysbysiad statudol, a fydd hefyd yn bwrw ymlaen â phenderfyniadau terfynol ar ddyfodol hysbysiadau trwydded alcohol.

16. A ydych chi'n rhagweld unrhyw risgiau neu fanteision o ddileu'r gofyniad i hysbysebu hysbysiadau trwydded alcohol mewn papurau newydd print lleol?

17. Pa dystiolaeth sydd gennych am gostau cyhoeddi hysbysiadau trwydded alcohol mewn papurau newydd print lleol yn eich ardal leol i fusnesau?

18. A ydych chi'n ystyried bod y costau sy'n gysylltiedig â chyhoeddi hysbysiadau statudol yn y cyfryngau lleol yn ddigon tryloyw?

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Ddim yn gwybod
- ☐ Ddim am ddweud

19. Yn lle cyhoeddi mewn papurau newydd print lleol, pa ddulliau amgen o gyhoeddi'r wybodaeth hon ydych chi'n eu hystyried fyddai fwyaf effeithiol wrth sicrhau craffu effeithiol, tryloywder ac ymwybyddiaeth gyhoeddus o weithgareddau trwyddedu?

- ☐ Hysbysiadau a arddangosir yng nghyffiniau'r lleoliad trwyddedig
- ☐ Gwefannau newyddion lleol ar-lein a/neu'r Porth Hysbysiadau Cyhoeddus ar-lein
- ☐ Gwefannau, cylchlythyrau neu sianeli cyfryngau cymdeithasol y cyngor
- ☐ Arall

Os ateboch 'Arall', manylwch:

8. Trwyddedau Masnachu Awyr Agored a Phalmant

Nod y llywodraeth yw gwella a symleiddio'r system bresennol ar gyfer trwyddedau masnachu awyr agored a phalmant, gan ddileu rhwystrau i ddefnyddio gofod awyr agored wrth gynnal mesurau diogelwch.

Mae'r Llywodraeth yn ceisio barn ar sut mae'r system bresennol ar gyfer trwyddedau masnachu awyr agored a phalmant yn gweithredu, a sut y gellid ei gwella i gefnogi twf busnes yn well wrth gynnal diogelwch y cyhoedd. Awgrymodd y Tasglu rai opsiynau, gan gynnwys: symleiddio ac ymestyn hyd trwyddedau palmant (e.e. o leiaf ddwy flynedd fel rheol); dileu amodau sy'n gysylltiedig â COVID sydd wedi dyddio; egluro bod alcohol mewn cynwysyddion agored (h.y. diod wedi'i arllwys i wydr) mewn ardaloedd awyr agored trwyddedig yn cyfrif fel gwerthiannau ymlaen; hyrwyddo canllawiau arfer gorau i wneud y mwyaf o fasnachu awyr agored; cefnogi hyblygrwydd tymhorol; ac annog awdurdodau lleol i fabwysiadu dulliau pragmatig sy'n hybu gweithgarwch economaidd.

20. Ydych chi'n ateb ar ran busnes sydd â thrwydded palmant neu a fu'n masnachu yn yr awyr agored?

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Ddim yn gwybod
- ☐ Ddim am ddweud

9.

21. Pa mor aml mae eich sefydliad yn gwneud cais am drwydded masnachu awyr agored neu drwydded palmant (ar gyfartaledd)?

- ☐ Sawl gwaith y flwyddyn
- ☐ Unwaith y flwyddyn
- ☐ Bob ychydig flynyddoedd
- ☐ Anaml
- ☐ Byth

22. Beth yw prif bwrpas eich masnachu awyr agored?

- ☐ Cerddoriaeth fyw
- ☐ Digwyddiadau chwaraeon
- ☐ Gwerthu nwyddau
- ☐ Gwerthu bwyd a/neu ddiod
- ☐ Arall

Os ateboch 'Arall', manylwch:

23. Pa rwystrau sy'n eich atal rhag gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o fannau awyr agored ar hyn o bryd, ac a oes gennych unrhyw argymhellion i fynd i'r afael â'r rhain?

10.

24. Am ba hyd ydych chi'n meddwl y dylai trwyddedau palmant fod yn ddilys?

Mae trwyddedau palmant yn caniatáu i fusnesau megis caffis roi byrddau a chadeiriau ar y stryd. Am ba hyd y dylai'r trwyddedau hyn bara cyn bod angen eu hadnewyddu?

- ☐ 1 flwyddyn
- ☐ 2-3 blynedd
- ☐ 5 mlynedd
- ☐ Parhaol (gydag adolygiadau achlysurol)
- ☐ Arall (nodwch isod)

Sylw:

25. Sut gall trwyddedu palmant gefnogi hyblygrwydd tymhorol a chaniatâd dros dro yn well (e.e. ar gyfer cerddoriaeth neu ddigwyddiadau chwaraeon)?

26. A ddylid trin alcohol mewn cynwysyddion agored (e.e. diod wedi'i arllwys i wydr) mewn ardaloedd trwydded palmant fel rhywbeth sy'n cael ei werthu ymlaen?

- ☐ Dylid
- ☐ Na ddylid
- ☐ Ddim yn gwybod
- ☐ Ddim am ddweud

27. A oes angen canllawiau i gefnogi arfer gorau mewn masnachu awyr agored?

- ☐ Oes
- ☐ Nac oes
- ☐ Ddim yn gwybod
- ☐ Ddim am ddweud

Sylw:

11. Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro (TEN)

Ein nod yw ei gwneud hi'n haws i safleoedd trwyddedig roi hysbysiad o ddigwyddiadau dros dro.

Mae hysbysiadau digwyddiadau dros dro (TEN) yn broses hysbysu ysgafn i ganiatáu digwyddiadau mwy neu estyniadau i oriau mewn safleoedd sydd eisoes â thrwydded. Mae TEN hefyd ar gyfer safleoedd heb drwydded i gynnal digwyddiad sy'n cynnwys gweithgarwch trwyddedadwy, ond nid yw'r Llywodraeth ar hyn o bryd yn ymgynghori ar unrhyw newidiadau i'r rheoliadau hynny.

Ar hyn o bryd, gall safleoedd trwyddedig wneud cais am uchafswm o 15 TEN mewn blwyddyn, am gyfanswm o 21 diwrnod. Cynyddwyd y terfyn yn ystod Covid, i 20 digwyddiad dros 26 diwrnod. Mae'r cynnydd dros dro hwn yn y nifer o ddyddiau wedi dod i ben ers hynny am nad yw'r ddeddfwriaeth frys Covid mewn grym mwyach. Rydym yn cynnig cynyddu'r terfyn yn barhaol, er mwyn cefnogi lleoliadau sy'n cynnal digwyddiadau cymunedol.

28. A ydych chi'n cefnogi cynyddu'r nifer uchaf blyneddol o TEN fesul safle trwyddedig?

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Ddim yn gwybod
- ☐ Ddim am ddweud

29. A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â chynyddu'r nifer uchaf blyneddol o TEN i 20 digwyddiad dros 26 diwrnod (yr un terfyn a oedd yn berthnasol yn ystod Covid)?

- ☐ Cytuno
- ☐ Anghytuno
- ☐ Ddim yn gwybod
- ☐ Ddim am ddweud

**30. Pa fanteision neu risgiau, os o gwbl, ydych chi'n eu rhagweld os cynyddir y nifer uchaf o TEN?
(Rhowch enghreifftiau neu dystiolaeth lle bo modd.)**

31. A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â chadw'r bwlch 24 awr rhwng digwyddiadau dros dro mewn safleoedd trwyddedig?

- ☐ Cytuno
- ☐ Anghytuno
- ☐ Ddim yn gwybod
- ☐ Ddim am ddweud

32. Pa ddiogelwch neu newidiadau ychwanegol, os o gwbl, fyddai eu hangen pe bai'r hawl TEN yn cael ei chynyddu?

33. A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai amodau a osodir ar drwyddedau safleoedd drosglwyddo'n awtomatig i TEN a roddir i'r safleoedd hynny?

Ar hyn o bryd, nid yw amodau a osodir ar drwyddedau safleoedd yn gymwys yn awtomatig i TEN. Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn a ydych chi'n credu y dylent fod yn y dyfodol.

- ☐ Cytuno
- ☐ Anghytuno
- ☐ Ddim yn gwybod
- ☐ Ddim am ddweud

12. Polisiâu Cyffredinol ac Orlau Craidd

Nod y Llywodraeth yw atal cyfyngiadau hen ffasiwn rhag parhau ar fusnesau am gyfnod amhenodol.

Nid yw polisiâu cyffredinol, er enghraifft sefydlu oriau agor craidd, wedi'u hadlewyrchu yn Neddf Trwyddedu 2003. Gellir gosod y rhain ar drwyddedau mangre am gyfnod amhenodol, yn aml yn seiliedig ar bryderon hanesyddol. O dan y Ddeddf Drwyddedu, mae'n ofynnol i awdurdodau trwyddedu ymgynghori a chyhoeddi Datganiad o Bolisi Trwyddedu bob pum mlynedd. Mae'r canllawiau statudol ar ddatganiadau o bolisi trwyddedu (pennod 14, paragraff 51) hefyd yn sicrhau bod "rhaid i awdurdodau trwyddedu ystyried pob cais bob amser, a rhaid iddynt beidio â gosod oriau agor trwyddedig wedi'u pennu ymlaen llaw, heb roi ystyriaeth unigol i rinweddau pob cais".

Trwy'r alwad hon am dystiolaeth, mae'r Llywodraeth am archwilio'r achos dros gyflwyno gofynion i sicrhau bod unrhyw bolisiâu cyffredinol sy'n cyfyngu ar rai gweithgareddau trwyddedig o fewn ardal awdurdod lleol neu benodol yn gymesur. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, yr angen i gynnal asesiad i sicrhau bod unrhyw ddull cyffredinol yn gymesur, gofynion i osod amserlenni ar gyfer polisiâu cyffredinol ac i fonitro effaith, neu ofyniad i adolygu effaith cyn terfynu neu ymestyn y polisi. Gallai hyn gynnwys polisiâu cyffredinol sy'n berthnasol i fangreoedd allfasnach hefyd.

34. A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai polisiâu cyffredinol fod yn destun adolygiad rheolaidd neu gymalau machlud?

- ☐ Cytuno
- ☐ Anghytuno
- ☐ Ddim yn gwybod
- ☐ Ddim am ddweud

Pe bai adolygiadau rheolaidd, pa amserlen fyddai'n briodol?

35. A oes unrhyw ffynonellau data neu dystiolaeth presennol y byddech chi'n eu hargymell i awdurdodau eu defnyddio i asesu effaith polisi cyffredinol cyn iddo gael ei ymestyn neu ei derfynu?

36. A oes gan yr ardal awdurdod lleol rydych chi'n gweithredu ynddi unrhyw bolisïau trwyddedu arbennig – er enghraifft, oriau craidd, cynlluniau ardoll gyda'r hwyr neu amodau eraill a gymhwysir yn lleol?

Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn a ydych chi'n byw neu'n gweithio mewn ardal â pholisïau trwyddedu arbennig. Dywedwch wrthym a oes unrhyw bolisïau arbennig yn berthnasol yn eich ardal leol.

- ☐ Oes
- ☐ Nac oes
- ☐ Ddim yn gwybod
- ☐ Ddim am ddweud

Os ateboch chi 'Oes', sut mae wedi effeithio ar eich busnes neu'ch cymuned?

13. Protocol Tystiolaeth a Data

Ein nod yw sicrhau bod y dystiolaeth a'r data sydd eu hangen ar gyfer adolygiadau a gwrthwynebiadau trwyddedau yn wrthrychol ac yn dryloyw.

Rydym yn ystyried datblygu protocol cenedlaethol i safoni gofynion tystiolaethol, hyrwyddo cyfryngu ac egluro gweithdrefnau gwrthwynebu. Un dull, er enghraifft, fyddai rhoi mwy o ddylanwad i swyddogion trwyddedu yn y broses drwyddedu mewn ffordd debyg i swyddogion cynllunio. Bwriad unrhyw newidiadau fyddai lleihau anghydfodau costus, gwella tryloywder, a sicrhau bod penderfyniadau'n gymesur ac yn gyfreithiol gadarn.

37. Y Prawf Agosrwydd. Mae paragraff 8.13 o ganllawiau adran 182 yn nodi y gall unrhyw unigolyn neu fusnes sydd â hawl i wneud sylwadau wneud hynny "ni waeth beth yw eu hagosrwydd daearyddol i'r safle". A ddylai fod gofyniad i unigolion a busnesau sy'n gwneud sylwadau o blaid neu yn erbyn cais am drwydded fod yn agos at y safle yn ddaearyddol?

- ☐ Dylai
- ☐ Na ddylai
- ☐ Ddim yn gwybod
- ☐ Ddim am ddweud

38. Gwrthwynebiadau. Mae paragraffau 9.4 i 9.10 o ganllawiau adran 182 yn ceisio atal sylwadau amherthnasol, blinderus neu wacsaw. A yw'r mecanwaith hwn yn dileu sylwadau o'r fath yn llwyddiannus?

- ☐ Ydy
- ☐ Nac ydy
- ☐ Ddim yn gwybod
- ☐ Ddim am ddweud

Os ateboch 'Nac ydy', rhowch sylwadau ar beth arall y gellid ei wneud i leihau sylwadau o'r fath.

39. Gwella Safonau Tystiolaethol. A ddylai fod gofyniad bod sylwadau sy'n gwrthwynebu trwydded yn cyflwyno'r achos a'r dystiolaeth dros niwed i un neu fwy o'r amcanion trwyddedu? Mewn geiriau eraill, dim ond sylwadau sy'n nodi bod gwrthwynebiad ynghylch yr amcanion trwyddedu fyddai'n cyfrif.

- ☐ Dylai
- ☐ Na ddylai
- ☐ Ddim yn gwybod
- ☐ Ddim am ddweud

40. Prawf Angenrheidrwydd a Chymesuredd. A ddylid defnyddio prawf i archwilio a yw amodau trwyddedu yn angenrheidiol ac yn gymesur?

- ☐ Dylid
- ☐ Na
- ☐ Ddim yn gwybod
- ☐ Ddim am ddweud

41. A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai penderfyniadau swyddog trwyddedu fod â mwy o bwysau gyda'r pwyllgor trwyddedu?

Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn a ddylai swyddog trwyddedu gael statws 'dyfarnwr annibynnol' y mae ei benderfyniadau'n cario mwy o bwysau na phenderfyniadau partïon eraill.

- ☐ Cytuno
- ☐ Anghytuno
- ☐ Ddim yn gwybod
- ☐ Ddim am ddweud

42. Sut dylid annog cyfryngu a datrysiaid anffurfiol ar ddechrau'r broses cyflwyno sylwadau?

14. Gwyliau a Digwyddiadau

Nod y Llywodraeth yw cefnogi buddsoddiad mewn gwyliau a digwyddiadau cymunedol, megis digwyddiadau awyr agored a all gynnwys gwerthu alcohol.

Mae trwyddedu yn effeithio ar y sectorau gwyliau a digwyddiadau, ac mae gan y Llywodraeth ddiddordeb mewn deall ble y gallai fod lle i gefnogi'r sectorau hyn drwy ymagwedd fwy effeithiol ac ysgafnach at drwyddedu.

Cynnig allweddol a godwyd gan y Tasglu Trwyddedu oedd a ddylid galluogi trwyddedau tymor hwy neu barhaol ar gyfer gwyliau a digwyddiadau cylchol i gefnogi buddsoddiad a chynllunio. Mae'r alwad hon am dystiolaeth am ddeall barnau ynghylch i ba raddau y gallai unrhyw newidiadau feithrin sefydlogrwydd a thwff yn y sectorau gwyliau a digwyddiadau.

43. A ydych chi'n cefnogi galluogi trwyddedau tymor hwy neu barhaol ar gyfer gwyliau a digwyddiadau cylchol?

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Ddim yn gwybod
- ☐ Ddim am ddweud

44. A fyddai dystiolaeth o ddigwyddiad diogel a llwyddiannus a gynhaliwyd mewn blynyddoedd blaenorol yn ddigon o dystiolaeth yn y rhan fwyaf o achosion ar gyfer rhoi estyniadau trwydded ar gyfer digwyddiadau cylchol?

- ☐ Byddai
- ☐ Nad fyddai
- ☐ Ddim yn gwybod
- ☐ Ddim am ddweud

45. Beth arall y gellid ei wneud i helpu i hyrwyddo buddsoddiad tymor hir mewn digwyddiadau, a chynllunio digwyddiadau?

15. Egwyddor Asiant dros Newid

Mae'r Llywodraeth yn ystyried sut mae'r egwyddor Asiant dros Newid (AoC) yn cael ei chymhwyso ar hyn o bryd mewn trwyddedu i amddiffyn safleoedd trwyddedig presennol (gan gynnwys theatrau, lleoliadau cerddoriaeth a chwaraeon) a phreswylwyr yn well.

Beth yw'r Egwyddor Asiant dros Newid?

Mae'r egwyddor AoC yn gosod y cyfrifoldeb am liniaru effeithiau gweithgareddau presennol sy'n cynhyrchu sŵn ar unrhyw ddatblygiad newydd. Er enghraifft, os yw datblygwr yn bwriadu adeiladu cartrefi newydd ger lleoliad cerddoriaeth presennol, y datblygwr sy'n gyfrifol am liniaru unrhyw broblemau posib e.e. gosod inswleiddio sain.

Mae'r egwyddor eisoes wedi'i hymgorffori yn y system gynllunio. Mae'r Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol yn glir, lle gallai gweithrediad busnes presennol gael effaith andwyol sylweddol ar ddatblygiad newydd yn ei gyffiniau, y dylid ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd (neu'r 'asiant dros newid') ddarparu lliniaru addas cyn i'r datblygiad gael ei gwblhau.

Bwriad Deddf Trwyddedu 2003 yw rhoi'r gallu i awdurdodau trwyddedu lleol ystyried amrywiaeth o ffactorau lleol wrth wneud penderfyniadau trwyddedu. Er bod disgwyl i gamau gweithredu awdurdodau hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu statudol, mae'r drefn yn ceisio osgoi dull un ateb sy'n addas i bawb. Mae'n cydnabod bod gwahanol gymunedau'n wynebu gwahanol heriau. Gall awdurdodau trwyddedu lleol ymgorffori'r egwyddor Asiant dros Newid yn eu datganiadau o bolisi trwyddedu os ydynt yn ystyried ei bod yn angenrheidiol neu'n ddefnyddiol gwneud hynny. Rydym am ddeall, fodd bynnag, sut yr ystyrir hyn ar hyn o bryd fel rhan o benderfyniadau trwyddedu, pa mor effeithiol ydyw, ac a fyddai'n fuddiol cryfhau'r dull hwn.

46. A ddylai'r drefn drwyddedu roi mwy o bwyslais ar yr egwyddor Asiant dros Newid?

- ☐ Dylai
- ☐ Na ddylai
- ☐ Ddim yn gwybod
- ☐ Ddim am ddweud

16.

47. A allwch chi roi enghreifftiau o ble mae busnesau presennol wedi wynebu cwynion neu gyfyngiadau trwyddedu oherwydd datblygiad preswyl newydd gerllaw?



48. Pa gamau neu offer ymarferol fyddai'n helpu awdurdodau trwyddedu i gymhwyso'r egwyddor Asiant dros Newid yn effeithiol (e.e. canllawiau, hyfforddiant, rhannu data)?

17. Parthau Lletygarwch, Hamdden a Diwylliannol

Mae dynodi parthau i ddiogelu gweithgarwch economaidd a diwylliannol yn rhywbeth sydd wedi'i ddefnyddio'n llwyddiannus yn y DU gan awdurdodau lleol, a hefyd dramor, er enghraifft yn Ne Cymru Newydd. Hoffai'r Llywodraeth archwilio sut y gallai awdurdodau lleol ddefnyddio parthau mewn ardaloedd lletygarwch, hamdden a diwylliannol i helpu i ddatblygu, gwarchod a rheoli economïau'r nos bywiog, gan barhau i amddiffyn cymunedau lleol.

Hoffai'r Llywodraeth ddefnyddio'r Alwad hon am Dystiolaeth, felly, i helpu i lywio datblygiad polisi cynnar yn y maes hwn.

49. A oes enghreifftiau cydnabyddedig o arfer effeithiol yn y DU a allai gyfrannu at ddatblygu polisi a chanllawiau ar gyfer awdurdodau lleol?

50. A ddylai fod gofyniad i awdurdodau lleol ymgynghori â busnesau lleol, asiantaethau gorfodi a phreswylwyr lleol ar greu parthau?

☐ Dylai

- ☐ Na ddylai
- ☐ Ddim yn gwybod
- ☐ Ddim am ddweud

51. Pa fecanweithiau trwyddedu neu gynllunio presennol neu newydd y gallai awdurdodau lleol eu defnyddio i ddatblygu a rheoli parthau?

52. Pa ddangosyddion allai fod yn briodol i awdurdodau lleol asesu effaith parthau?

53. A oes achosion wedi'u dogfennu lle mae awdurdodau lleol wedi defnyddio mecanweithiau cynllunio neu drwyddedu yn effeithiol i ddylanwadu ar y cymysgedd busnes o fewn parthau penodol?

18. Effeithiau – troseddu, iechyd y cyhoedd, awdurdodau lleol, cydraddoldeb

54. Pa rai, os o gwbl, o argymhellion y Tasglu Trwyddedu ydych chi'n disgwyl iddynt roi'r baich mwyaf sylweddol ar gapasiti a gallu awdurdodau trwyddedu i gyflawni eu swyddogaeth arferol?

- ☐ Fframwaith Polisi Trwyddedu Cenedlaethol
- ☐ Amnest Amod Trwyddedu
- ☐ Tynnu'r Gofyniad i Hysbysebu mewn Papur Newydd
- ☐ Trwyddedau Masnachu Awyr Agored a Phalmant
- ☐ Cynnydd Hawl TEN
- ☐ Cymal Machlud ar Oriau Cyffredinol
- ☐ Protocol Cymrodeddu, Tystiolaeth a Data
- ☐ Trwyddedu Gwyliau a Digwyddiadau
- ☐ Egwyddor Asiant dros Newid
- ☐ Dim
- ☐ Ddim yn gwybod
- ☐ Ddim am ddweud

Pa fesurau fydddech chi'n awgrymu eu rhoi ar waith i liniaru unrhyw effaith?

55. Yn eich barn chi, pa effaith fydd gan y cynigion ar gyfer diwygio sydd wedi'u cynnwys yn yr Alwad hon am Dystiolaeth ar ddiogelwch y cyhoedd neu droseddu?

- ☐ Cadarnhaol iawn
- ☐ Cadarnhaol
- ☐ Dim
- ☐ Negyddol

- ☐ Negyddol iawn
- ☐ Ddim yn gwybod
- ☐ Ddim am ddweud

56. Pa rai, os o gwbl, o'r diwygiadau a ddisgrifir yn yr Alwad hon am Dystiolaeth, yn eich barn chi, sy'n peri pryderon ynghylch diogelwch y cyhoedd neu droseddau?

- ☐ Fframwaith Polisi Trwyddedu Cenedlaethol
- ☐ Amnest Amod Trwyddedu
- ☐ Tynnu'r Gofyniad i Hysbysebu mewn Papur Newydd
- ☐ Trwyddedau Masnachu Awyr Agored a Phalmant
- ☐ Cynnydd Hawl TEN
- ☐ Cymal Machlud ar Oriau Cyffredinol
- ☐ Protocol Cymrodeddu, Tystiolaeth a Data
- ☐ Trwyddedu Gwyliau a Digwyddiadau
- ☐ Egwyddor Asiant dros Newid
- ☐ Dim
- ☐ Ddim yn gwybod
- ☐ Ddim am ddweud

Pam ydych chi'n meddwl hyn?

57. Yn eich barn chi, pa effaith fydd gan y cynigion ar gyfer diwygio sydd wedi'u cynnwys yn yr Alwad hon am Dystiolaeth ar iechyd y cyhoedd?

- ☐ Cadarnhaol iawn
- ☐ Cadarnhaol
- ☐ Dim

- ☐ Negyddol
- ☐ Negyddol iawn
- ☐ Ddim yn gwybod
- ☐ Ddim am ddweud

58. Pa rai, os o gwbl, o'r diwygiadau a ddisgrifir yn yr Alwad hon am Dystiolaeth, yn eich barn chi, sy'n peri pryderon ynghylch iechyd y cyhoedd?

- ☐ Fframwaith Polisi Trwyddedu Cenedlaethol
- ☐ Amnest Amod Trwyddedu
- ☐ Tynnu'r Gofyniad i Hysbysebu mewn Papur Newydd
- ☐ Masnachu Awyr Agored a Phalmant
- ☐ Cynnydd Hawl TEN
- ☐ Cymal Machlud ar Oriau Cyffredinol
- ☐ Protocol Cymrodeddu, Tystiolaeth a Data
- ☐ Trwyddedu Gwyliau a digwyddiad
- ☐ Egwyddor Asiant dros Newid
- ☐ Dim
- ☐ Ddim yn gwybod
- ☐ Ddim am ddweud

Pam ydych chi'n meddwl hyn?

59. Wrth ddiwygio'r system drwyddedu i hyrwyddo manteision economaidd, pa fesurau y gellir eu cymryd i hyrwyddo iechyd y cyhoedd?

60. A yw'r alwad hon am dystiolaeth yn codi unrhyw bryderon ynghylch cydraddoldeb, megis effeithiau anghymesur ar grwpiau demograffig penodol?

- ☐ Ydy
- ☐ Nac ydy
- ☐ Ddim yn gwybod
- ☐ Ddim am ddweud

Pam ydych chi'n meddwl hyn?